

Coed ger cofeb rhyfel y Fflint

Ewch i wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y cod QR isod i gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud.

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg - gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in Welsh - see Welsh page on our website.



Coed yn dir hamdden yr Hôb

## Darganfod mwy

Y Cynllun Coed a Choetir Trefol:
www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Countryside--Coast/Tree/Cynllun-Coed-a-Choetir-Trefol.pdf

Sut i blannu coeden:
www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/how-to-plant/

Y goeden iawn, yn y lle iawn, am y rhesymau iawn:
assets.publishing.service.gov.uk/media/67d3f775a4075fa7b9851d85/CFT_UK_Forestry_Standard_infographic_Mar_25_.pdf

## Ein gwaith plannu coed:
## Tyfu gwell yfory

# Coed yn Sir y Fflint

Mae Cymru'n un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop gyda choedwigoedd ond yn gorchuddio 14.8% o'r tir i gymharu â'r cyfartaledd o 38% yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym hefyd yn un o'r gwledydd sydd wedi gweld y dirywiad mwyaf ym myd natur, sy'n dangos mor hanfodol yw coed i gynnal bioamrywiaeth

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council


# Pam fod coed yn bwysig?

Mae coed yn gynrychioladol o fyd natur, yn hirhoedlog ac yn elfen bwysig a pharhaol o'r tirlun mewn rhannau helaeth o Sir y Fflint, ac maent yn darparu amrywiaeth helaeth o fanteision i'r amgylchedd. Yn y pen draw, mae hynny o fudd i bobl a byd natur.

Yn ôl astudiaeth arloesol gan Forest Research a Defra, mae'r holl goed unigol sydd wedi'u plannu y tu hwnt i'n coedwigoedd a choetir yn werth £3.8 biliwn i'r economi. Mae hynny'n seiliedig ar eu swyddogaeth bwysig wrth amsugno a storio carbon, rheoli tymheredd, hybu gwytnwch rhag llifogydd a lleihau sŵn a llygredd aer. At ei gilydd, mae hyn yn helpu i liniaru ar effeithiau newid hinsawdd, lleihau'r effaith ar bobl yn sgil llifogydd, oeri ardaloedd trefol yn yr haf a gwella iechyd a lles.

## Gorchudd coed yn Sir y Fflint

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru astudiaeth yn 2016 a fu'n bwrw golwg ar orchudd coed mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru. Yn 2013, roedd gorchudd coed yn nhrefi Sir y Fflint yn seithfed o'r gwaelod drwy'r wlad, gyda gorchudd dros ddim ond 14.5% o'r tir. Roedd hynny'n sylweddol is na'r cyfartaledd o 16.3% drwy Gymru. Dyma sut mae rhai o'n trefi'n cymharu â'r cyfartaledd yn genedlaethol:




# Ein hagwedd at blannu coed

Yn 2018, cyhoeddodd Cyngor Sir y Fflint ei Gynllun Coed a Choetir Trefol cyntaf, a'r Weledigaeth oedd: 'Bod â gorchudd amrywiol a gwydn o goed yn holl drefi Sir y Fflint sy'n cael ei werthfawrogi a'i reoli'n gynaliadwy, sy'n darparu sawl budd i bobl a'r amgylchedd ac sy'n gwella bioamrywiaeth.' Mae'r Cynllun Coed a Choetir Trefol yn gosod targed o gyflawni gorchudd coed trefol o 18% erbyn 2033.



Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i sicrhau grantiau i ategu cyflawniad y cynllun drwy greu rhwydweithiau gwyrddach ledled y sir a gwella mannau gwyrdd er budd pobl a byd natur.

Rydym yn cydweithio ar draws holl wasanaethau'r Cyngor â Chynghorau Tref a Chymuned, grwpiau diddordeb lleol ac ysgolion er mwyn adnabod cyfleoedd i blannu coed yn y gaeaf, cytuno ar gynlluniau a'u roi ar waith. Ynghyd â chynlluniau i blannu coed newydd a chynnal y gorchudd sydd gennym eisoes, rydym hefyd yn plannu coed yn lle rhai y bu'n rhaid eu torri oherwydd clefydau neu resymau eraill. Rydym yn gofalu am y planhigion ar ôl eu plannu er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu.

Mae amrywiaeth ein gwaith plannu'n cynnwys llwyni, coed, perllannau a gwrychoedd er mwyn sicrhau bod ein prosiectau coed yn bodloni meini prawf Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig, "Y goeden iawn, yn y lle iawn, am y rhesymau iawn."



# Beth allwch chi ei wneud?

Mae llawer o wahanol bethau y gallwch eu gwneud i gefnogi bywyd gwyllt gartref ac yn eich cymuned:

- I awgrymu mannau addas i blannu coed yn y sir, anfonwch e-bost i bioamrywiaeth@siryfflint.gov.uk.
- Un rhan bwysig o adfer natur yw rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint yn am yn trefnu digwyddiadau i sôn am y cynefinoedd pwysig yng nghoedwigoedd y sir. Cadwch olwg am wybodaeth am ein digwyddiadau.
- Cymryd rhan mewn digwyddiad plannu coed cymunedol wedi'i drefnu gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad neu'r Tîm Bioamrywiaeth.
- Bod yn hyrwyddwr coed lleol drwy annog plannu coed yn eich ardal chi ac ennyn brwdfrydedd pobl dros fuddion coed i bobl a bywyd gwyllt.
- Plannu coeden yn eich gardd neu helpu i blannu coed yn lleol.
- Gwirfoddoli â mudiad cadwraeth lleol.
- Prynu nwyddau cyfeillgar i goedwigoedd.
- Treulio amser yn ymgolli ym myd natur a magu dealltwriaeth ohono.



